YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

'Nid da lle gellir gwell'

## GWYBODAETH BWYSIG – darllenwch yn ofalus

Annwyl rieni a gwarcheidwaid,

Ers cychwyn yn fy swydd, rwyf wedi bod wrthi yn cynnal awdit o'r ysgol a hoffwn rannu gyda chi ychydig o newidiadau a/neu eich atgoffa am rhai o drefniadau'r ysgol.

**Clwb brecwast :** drysau yn agor am 8:00 ac yn cau am 8:30
Mae'r clwb brecwast yn cychwyn am 8:00 bob bore, gofynnwn yn garedig i rieni aros gyda'u plant tan y bydd y clwb yn cychwyn. Nid ydym fel ysgol a'r cyfrifoldeb i warchod unrhyw blentyn sydd yn cyrraedd yr ysgol cyn i ddrysau'r clwb brecwast agor. O safbwynt diogelwch eich plentyn, mae'n bwysig bod pob rhiant sy'n cludo eu plentyn i'r ysgol yn sicrhau eu bod yn trosglwyddo eu plentyn i aelod o staff y clwb brecwast ac yn arwyddo'r gofrestr bob dydd.

**Dechrau'r diwrnod ysgol**
Bydd y gât ar gyfer yr iard cefn yn agor yn y bore, ar gyfer plant sydd ddim yn mynychu'r clwb brecwast am 8:50. Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 9:00 o'r gloch a disgwylir i bob plentyn fod ar dir yr ysgol erbyn hynny. Fe fydd aelod o staff dysgu'r ysgol wrth y glwyd i gyfarch y rheini a disgyblion.

**Casglu eich plant o'r ysgol ar ddiwedd dydd**
O Ddydd Llun Medi 17, gofynnir i rieni i gasglu eu plant o'r dosbarthiadau fel yr arfer ond trwy ddod i mewn i'r iard wrth y gatiau mawr nesaf i gegin yr ysgol (nesaf i'r maes parcio staff). **Ni fydd y gât nesaf i'r brif fynedfa ar agor pellach ar ddiwedd y dydd gan fod y llwybr rhy gul.** Does dim newidiadau ynglŷn â'r dosbarthiadau rydych yn casglu eich plentyn ac eithrio blynyddoedd 5 a 6. Bydd dosbarthiadau Mr Jones a Mrs Richards yn gadael yr ysgol trwy'r drysau nesaf i ystafell Dechrau'n Deg, a dosbarth Mrs Zych yn gadael trwy ddrws y neuadd wrth gefn yr ysgol.
*Mi fydd y plant yn parhau i ddefnyddio'r gât/llwybr nesaf i'r brif fynedfa yn y bore fel arfer.

**Gwisg ysgol**
Mae'r wisg ysgol yn symbol gweladwy o barch at gymuned yr ysgol yr ydym yn perthyn iddi ac felly disgwyliwn i'n ddisgyblion ddilyn y canllawiau isod. Gofynnwn yn garedig i rieni gadw at wisg ysgol gywir yr ysgol. Yn ogystal mae esgidiau a gwisg addas yn angenrheidiol ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol. Disgwylir i ddisgyblion newid cyn y wers ac yna nôl i'w gwisg ysgol ar ddiwedd y wers. Ni ddylid gwisgo gemwaith i'r ysgol am resymau iechyd a diogelwch. Erfyniwn arnoch i osod enw eich plentyn yn glir ar ei dd/dillad. Oni wneir hyn, ni fydd modd i ni ddod o hyd i ddillad coll!

**Parcio**
Ni chaniateir i rieni barcio yn faes parcio'r staff - bydd disgwyl i rieni barcio yn y maes parcio pellaf. Gyrrwch yn ofalus ac yn bwyllog ger yr ysgol a pheidiwch barcio mewn llefydd sy'n atal llif y drafnidiaeth. A allwch sicrhau nad ydych yn rhwystro trigolion yr ardal rhag mynd at eu cartref pan yr ydych yn dod a'ch plentyn/plant neu'n ôl eich plentyn/plant o'r ysgol. Erfynnir am gydweithrediad pawb er diogelwch y plant.

**Meddyginiaethau**
Does dim disgwyl i unrhyw aelod o'r staff drefnu neu roddi unrhyw feddyginiaeth i blant yr ysgol. Serch hyn, gall achosion godi lle mae'n fuddiol i iechyd y plentyn er mwyn iddo/iddi beidio â cholli ysgol dderbyn moddion, a roddwyd gan feddyg, yn yr ysgol. Mewn achosion fel hyn, disgwylir i rieni gysylltu â'r swyddfa er mwyn llenwi ffurflen ganiatâd i roi meddyginiaeth i blant. Lle bo'n bosibl, fe ddylai rhieni ofyn i'w meddyg teuluol i ddarparu meddyginiaeth i'w plentyn lle nad oes angen cymryd dôs yn ystod diwrnod ysgol. Ni all staff yr ysgol roddi moddion sydd heb ei ddarparu gan feddyg.

**Gwaith Cartref**
Credwn fod gwaith cartref yn bwysig i ddatblygiad academaidd a phersonol y plentyn. Arweinia hyn at ddatblygiad sgiliau amrywiol. Rydym, felly, yn annog rhywfaint o waith cartref o'r blynyddoedd cynnar ymlaen, gan ddatblygu o weithgareddau mwy anffurfiol i waith ffurfiol. Mae gwaith cartref yn gyswllt pwysig rhwng yr ysgol a'r cartref, gan roi cyfle i rieni rhannu yn y broses o addysgu'r plentyn, a chadw mewn cysylltiad gyda'i ddatblygiad.
Bydd y gwaith cartref yn adlewyrchu gwaith y dosbarth. Bydd gwaith cartref yn cael eu dosbarthu ar nos Lun a'u dychwelyd i'r ysgol ar Ddydd Iau (Bl1 i 6). Bydd plant Bl 2 i 6 yn eistedd prawf sillafu a thablau ar ddydd Gwener yn wythnosol.
Mae dysgu darllen a datblygu i fod yn ddarllenydd annibynnol yn rhan bwysig o ddatblygiad plentyn. Credwn fod rôl bwysig gan y rhieni yn y broses hon, ac anogwn iddynt ddarllen gyda'i plentyn yn rheolaidd, darllen iddynt a rhannu hwyl llyfrau gan ennyn diddordeb a meithrin mwynhad.

**CRHA**
Mae'r CRhA yn hanesyddol wedi bod yn gymdeithas hynod o effeithiol yn cydweithio er lles ein disgyblion wrth godi arian a helpu i ariannu gweithgareddau yn yr ysgol sydd er budd y disgyblion. Bydd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ar Ddydd Mercher 18/9/18 a3:30 yn yr ysgol. Croeso i bawb. Wrth wirfoddoli byddwch yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i addysg eich plentyn ac yn helpu datblygu'r ysgol ymhellach.

Diolch am eich cydweithrediad wrth i ni hwyluso'r trefniadau yn ein hysgol newydd.

*C Davies*
Pennaeth YGG Parc y Tywyn

# YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

*'Níd da lle gellír gwell'*

## IMPORTANT INFORMATION – *please read carefully*

*Dear parent / Guardian,*

*Since starting in my post as headteacher, I have been carrying out an audit of the school and I would like to share with you some changes and remind you of some arrangements with regards to the school.*

**Breakfast club :** doors open at 8:00 and close at 8:30
Breakfast club starts at 8:00am. We kindly ask that parents supervise their child until breakfast club begins. The school is not responsible for any child that arrives on school premises before the breakfast club doors open. For the safety of your child, it is important that parents hand over their child to a member of the breakfast club staff and sign the register daily.

**Start of School Day**
The gate to enter the school grounds will open for children who do not attend breakfast club at 8:50.The school day starts at 9:00am and all pupils are expected to be on the school premises by this time. A member of the teaching staff will be at the gate to greet pupils and parents.

**Collecting your child from school at the end of the day**
As of Monday September 17th, parents will continue to collect their children from the designated classroom doors however you will gain access to the school yard via the gates next to the kitchen (located next to the staff car park). **The gate next to the main entrance will no longer be open at the end of the school day as the pathway is too narrow**. There are no changes as to which exit points/classrooms you collect your child from with exception from years 5 and 6. Mr Jones and Mrs Richards' class will leave via the door next to the Flying start classroom and Mrs Zych's class will leave via the hall door to the rear of the school.
*Children will continue to enter the school via the gate/path next to the main school reception in the mornings as per usual.

**School uniform**
Our uniform is a visual symbol of our pride in the school community which we belong. We kindly ask that parents adhere to our school uniform code. Appropriate clothes and footwear are essential for Physical Education lessons. Pupils are required to change into these clothes before the lesson and back into uniform after the lesson. No jewellery is to be worn to school for health and safety reasons. We urge you to write your child's name clearly on his/her clothes. Unless this is done, we will not be able to identify the owners of any lost property!

**Parking**
*Parents are not allowed to park in the staff car park - parents are to use the large car park.* We ask for everyone's co-operation in this respect for the safety of the children. Please drive safely and slowly near the school and don't park in areas that block the flow of traffic! Could you please ensure that you do not impede the local residence entering or leaving their homes when you bring or collect your child/children from school. We ask for everyone's co-operation in this respect for the safety of the children.

**Medicines**
It is not expected of any members of staff to arrange or to administer any medicines for children in school. However, circumstances may arise where children are well enough to attend school having been prescribed medicine by their GP. In cases such as this, parents must contact the school and compete a consent form enabling members of staff to administer prescribed medicines. Where possible, parents should ask their GP to prescribe medicine for their child that does not require the administration of any dosage during the school day. School staff cannot administer medicines that have not been prescribed by a doctor.

**Homework**
We believe that homework is important to the academic and personal development of children. We encourage basic homework from the Early Years onwards, developing from informal activities to formal set work. Homework is one important link between the school and the home, providing an opportunity for parents to share in the process of the child's learning and to keep abreast of his /her development. The homework always reflects the work undertaken in the class during the week. We encourage parents to take a healthy interest in the homework, by supervising, encouraging and offering help when necessary. Homework will be distributed on Mondays and is to be returned on Thursdays (Years 1 to 6). Years 2 to 6 children will sit spelling and tables tests on Fridays.
Learning to read and to become an independent reader is a very important aspect of child development. We believe that parents have an important role to play in this process and we encourage parents to read to / with their children on a regular basis.

**PTA**
Historically, the PTA has been highly effective through working with the school in the interest of the children to raise funds and to buy resources for the benefit of the pupils. The first meeting for the schools PTA will be held on Wednesday 18/9/18 at 3:30 in the school. There will be a warm welcome for everyone. By getting involved you will be making a valuable contribution to your child's education and help develop the school further.

Thank you for your co-operation as we facilitate new arrangements for our school

***C Davies***
Headteacher YGG Parc y Tywyn